COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 26AIN O FEHEFIN 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Manon Davies, Rhian Evans, Ian Evans, Helen Jones, Arwel Davies, Bari Evans ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.
Y Cynghorydd Rhian Jones Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim yn codi.

4. TRAFODAETH GYDA CHYNRYCHIOLYDD LLEOL O'R HEDDLU GOGLEDD CYMRU.
Croesawodd y Cadeirydd I'r SCCH3491 David Jones o'r Swyddfa Heddlu yn Rhuthun I'r cyfarfod.
Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth SCCH Jones ynglŷn ar ganlynol:-
A: Domestig yn Maes-y-Felin, Llanrhaeadr.
B. Cyflymdra ar yr A525 trwy Bentre' Llanrhaeadr.
C. Damwain modur yn Bentre' Llanrhaeadr yn ddiweddar.
D. Dwyn peiriannau, tanwydd ac yn blaen yn ffermydd.
Diolchwyd i'r SCCH Jones am fynychu'r cyfarfod.

5. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.
Adroddwyd y Clerc nad oedd yna gais am isetholiad i lenwi'r ddwy sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor am mi fydd y Cyngor yn llenwi'r seddi wag trwy gyfethol.

6. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd yr aelodau'r cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 22ain o Fai 2023.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.
Dim yn codi.

8. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.
Dim cyhoedd yn bresennol.

9. ADRODDIAD CYFARFOD FFERM WYNT FFOREST ALWEN AR 14EG O FEHEFIN 2023.
Cafwyd cyfarfod ar 14eg o Fehefin 2023 gydag Martin Cole a Sarah Jones o'r Cwmni RWE Renewables a rhoddwyd adroddiad presennol ynglŷn ar gais cynllunio "Fferm Wynt Coedwigaeth Alwen" ac mi fydd y cyn cais cynllunio yn cael ei chyhoeddi i'r Cyngor Cymuned yn ystod tymor yr Hydref 2023.

10. ADRODDIAD CYFARFOD HWYLUSYDD TAI GWLEDIG YN Y GYMUNED 19EG O FEHEFIN 2023.
Cafwyd cyfarfod dros Zoom ar 19eg o Fehefin 2023 gyda Mai Tudor, Hwylusydd Tai Gwledig o Grŵp Cynefin, ynglŷn â chwblhau'r adroddiad anghenion tai sydd yn cynnwys:-
A: Llythyrau pawb sy'n byw o fewn yr ardal cyngor cymuned (rydym wedi derbyn y cyfeiriadau eisoes gan Gyngor Sir Ddinbych)

B: Gwahodd pawb i fynychu Diwrnod Agored fe gewch chi benderfynu ar leoliad addas). Fel rheol mae'r Diwrnodau Agored yn cael eu cynnal rhwng 4.30 a 6.30 . Byddwn yn gwahodd Tai Teg a SARTH i fynychu'r Diwrnod Agored er mwyn trafod opsiynau tai fforddiadwy gyda phobl.
C: Paratoi'r adroddiad a'i gyflwyno i chi.
Mi fydd y ffi i'r Cyngor Cymuned yn £2,000.00 gyda chostau stampiau ail ddosbarth Post Brenhinol i bob cyfeiriad yn y gymuned.
Penderfynwyd yr aelodau i Grŵp Cynefin bwrw ymlaen gyda'r holiadur anghenion tai fforddiadwy dros y Cyngor Cymuned.

## 11. MATERION CYLLID.

A: Datganiad Banc £20,889.97.
B. Taliadau:-
1. Ffi fisol HSBC £5.00.
2. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod misol y Cyngor £20.00.
3. BHIB am Yswiriant Blynyddol y Cyngor £569.08.

## 12 CYNGOR SIR DDINBYCH - SAFLEOEDD POSIBL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD SIR DDINBYCH.

Er wybodaeth, e-bostid yr aelodau gan y Clerc rhestr o'r cyfarfodydd cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych i'r safleoedd posibl Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych.

## 13. MATERION CYNLLUNIO.

Derbyniwyd gwybodaeth fod yr "Adroddiad Ecoleg" i'r cais cynllunio 23/2023/0103 - Newid ac addasiadau i gyn sba i ffurfio llety gwyliau am yr Coach House, Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr yn gwrthwynebu'r cais cynllunio oherwydd prinder "Arolwg Ystlumod".

## 14. E-BOST CLWB PÊL DROED LLANRHAEADR.

Derbyniwyd gwybodaeth fod Clwb Pêl Droed Llanrhaeadr ddim yn cefnogir fenter am yr adeilad caban newydd yn Ysgol Bro Cinmeirch.

## 15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-
A: Ffyrdd canlynol mewn cyflwr gwarthus ac eisiau eu trwsio cyn gynted â phosib.
1: Ffordd gefn heibio Bryn Morfydd.
2 Ffordd o'r byg tuag at Ysgol Pant Pastynog.
3. Glaswellt eisiau eu torri rhwng Llan Llanrhaeadr tuag at Brion.
B. Mae'r Llwybrau Cyhoeddus canlynol eisiau sylw:-
1. Heibio Tan-y-Garth
2. Heibio Tan-yr-Allt.
3. Heibio Plas Capten.

## 16. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Mae yna brynhawn agored ar 13eg o Orffennaf 2023 rhwng 4 a 7 o'r gloch i weld gwaith y newidiadau yn Capel-y-Pentre, Llanrhaeadr.

## 17. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 31AIN O ORFFENNAF 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.